YSGOL BRYNREFAIL

GWASANAETH COFFA'R HOLOCAUST

Cynrychiolwyd Ysgol Brynrefail yng Ngwasanaeth Coffa'r Holocaust gan y Prif Ddisgybl, Caio Hywel ddarllenodd ' Wna I Byth Anghofio' o waith Elie Wiesel. Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni yn Siambr Dafydd Orwig ym Mhencadlys Cyngor Gwynedd, oedd yn orlawn o rai fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth ac eraill, yn eu plith criw o'r Chweched Dosbarth, ddaeth i dalu teyrnged.

Goleuwyd cannwyll er cof am bawb a gollwyd trwy weithred ddynol yn yr Holocaust a hefyd mewn trychinebau mwy diweddar.

Yr oedd yn wasanaeth dwys a dwysach nag arfer efallai am ei fod yn 70 mlynedd yn union ers rhyddhaedigaeth Auschwitz.